# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Caerdydd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Caerdydd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Caerdydd wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Caerdydd wedi cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgell Caerdydd wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, ac mae integreiddio timau'r Hyb a'r Llyfrgell wedi cynorthwyo i wella sawl maes. Mae datblygiadau wrth ddarparu hyfforddiant a chynnal rhaglen ddigwyddiadau wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi agendâu iechyd a lles. Mae staffio yn parhau i fod yn destun pryder, gyda nifer y staff cymwysedig ymhlith yr isaf yng Nghymru, er bod y gwasanaeth yn cefnogi staff i gwblhau cymwysterau perthnasol. Bydd creu tîm datblygu a strategaeth llyfrgell newydd yn cefnogi'r gwasanaeth wrth lunio arlwy'r llyfrgell i ddiwallu anghenion ei gymunedau.

- Mae cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles yn gryf gan Gaerdydd, un o'r ychydig awdurdodau sy'n rheolaidd yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau o dan DA 4 ym mhob man gwasanaeth sefydlog.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 100% o'r mynychwyr yn dweud bod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion.
- Yn sgil datblygiadau yn y rhaglen ddigwyddiadau, cafwyd cynnydd mawr yn y niferoedd sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau, gyda'r perfformiad yn hyn o beth nawr yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.
- Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n gryf mewn perthynas â dangosyddion traddodiadol ynghylch defnydd, er bod rhywfaint o amrywiaeth yn y ffigyrau o'i gymharu â 2016-17.
- Mae'r targedau derbyniadau cyffredinol yn parhau i fod yn heriol i'r gwasanaeth, ond mae'n dal i fuddsoddi'n gryf mewn adnoddau Cymraeg a'r gofynion yn y cyswllt hwn wedi'u cyflawni.
- Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu wrth baratoi i roi cefnogaeth i Credyd Cynhwysol, gyda Chaerdydd yn un o'r ychydig awdurdodau i adrodd am gynnydd yn y defnydd o TGCh.
- Cynyddu fu hanes lefelau staffio cyffredinol, yn dilyn integreiddio timau'r Hyb a'r Llyfrgell, ac mae'r targed fesul pen y boblogaeth bellach wedi'i gyrraedd ac ar lefel uchel. Fodd bynnag, mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng ymhellach, ac maent yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru

- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu yn 2017-18, gan adlewyrchu integreiddio cyllidebau a ffrydiau incwm yr Hyb a'r Llyfrgell.

# 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

## 2.1 Hawliau craidd

Roedd Caerdydd wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ond heb strategaeth llyfrgell gyffredinol sy'n mynegi gweledigaeth ac amcanion y gwasanaeth, mae'n methu â chyflawni hawl graidd 12. Nodir bod darparu gwasanaethau llyfrgell wedi'i alinio'n agos â blaenoriaethau a strategaethau corfforaethol a gyhoeddwyd, ond nid oes cysylltiad uniongyrchol â dogfennau perthnasol ar wefan y gwasanaeth llyfrgell i roi gwybod i ddefnyddwyr am gyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac ychydig o fanylion a geir yn y dogfennau corfforaethol i ddisgrifio rôl a chyfraniad y gwasanaeth. Yn sgil creu tîm datblygu a strategaeth llyfrgell newydd i gefnogi datblygu arlwy'r llyfrgell, dylid gallu mynd i'r afael â'r maes hwn yn 2018-19 i ddiwallu anghenion ei gymunedau.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, roedd Caerdydd wedi cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1 o'r dangosyddion.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | ✔ | |

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n rhannol |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | x | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Mae rhywfaint o welliant ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gyda Chaerdydd bellach yn cyflawni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff fesul pen y boblogaeth (DA 13).

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid oedd Caerdydd wedi cynnal arolwg defnyddwyr yn ystod 2017-18; mae'r rhain ar yr arfaeth ar gyfer ail flwyddyn y fframwaith.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 100% | *1/17* | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Caerdydd bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Ymchwilio, Adfyfyrio, Cofio – prosiect i addysgu plant ysgol gynradd am y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu'r disgyblion yn ymchwilio i fywydau milwyr a oedd yn byw yn Cathays drwy ddefnyddio'r casgliad astudiaethau lleol, ac yn cyfweld â'r henoed lleol ynghylch

bywyd ar ôl y rhyfel. Mae'r plant wedi gwella eu sgiliau a'u dealltwriaeth, a'r prosiect wedi gwella lles y bobl hŷn oedd yn rhan.

- Cyfleoedd Gwirfoddoli – effaith gwirfoddoli ar dri unigolyn; gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau newydd, gwella eu Saesneg, eu helpu i feithrin hyder, a chefnogi cyflogadwyedd.
- Prosiect sy'n ystyriol o Awtistiaeth – sesiynau Awtistiaeth gyfeillgar wedi'u targedu at blant a'u teuluoedd, a gynhelir yn wythnosol yn ystod gwyliau'r haf. Cefnogwyd plant gan staff y llyfrgell i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell a chymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, ac roedd y rhieni wedi elwa o gyfarfod â theuluoedd eraill mewn lleoliad hamddenol.
- Gweu a Sgwrs – effaith grŵp llyfrgell Knit & Natter ar iechyd a lles cyfranogwyr; mae un aelod yn mwynhau'r teimlad o gymuned, cyfeillgarwch a lles y mae'n eu cynnig, ac i'r rheiny sy'n dioddef o unigedd cymdeithasol, mae'n cynnig cefnogaeth cyfoedion.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Caerdydd ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | *amherthnasol* | | 24% | 83% | 94% | *71%* |
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 33% | 65% | 95% | *43%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 90% | 98% | 100% | *95%* |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | *amherthnasol* | | 88% | 91% | 98% | *84%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 93% | 99% | 100% | *93%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 74% | 86% | 94% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | *amherthnasol* | | 93% | 97% | 99% | *95%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | *amherthnasol* | | 8.5 | 9.1 | 9.2 | *9.5* |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 212 | *2/22* | 10 | 32 | 238 | *161* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 242 | *10/22* | 15 | 199 | 473 | *331* |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 684 | *1/22* | 82 | 228 | 684 | *487* |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 7,014 | *1/22* | 2,501 | 4,047 | 7,014 | *6,751* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 2,211 | *1/22* | 243 | 866 | 2,211 | *2,299* |

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 229 | *1/22* | 100 | 154 | 229 | *235* |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 112 | *7/22* | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen^ | 11 | *5/22* | 5 | 9 | 14 | *9* |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 56% | *3/22* | 14% | 27% | 67% | *40%* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 196 | *1/21* | 3 | 31 | 196 | *209* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 6,145 | *2/21* | 40 | 1,346 | 11,939 | *5,156* |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £15,937 | *3/21* | £7,047 | £11,915 | £17,771 | *£14,125* |
| b) % ar staff | 74% | *3/21* | 44% | 63% | 75% | *46%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | *17/21* | 4% | 13% | 25% | *12%* |
| % ar offer ac adeiladau | 17% | *2/21* | 0% | 4% | 20% | *19%* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 0% | *21/21* | 0% | 18% | 37% | *22%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £12,736 | *2/20* | £0 | £338 | £17,432 | *£1,059* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £1.24 | *21/21* | £1.24 | £1.82 | £2.41 | *£1.50* |
| DA 16 Oriau agor# | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.01% | *10/21* | 0.00% | 0.02% | 1.28% | *0.01%* |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.33% | *10/20* | 0.00% | 0.35% | 11.24% | *0.29%* |

** fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg*

*^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl*

*# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

# 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

## 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Caerdydd eto i gynnal ei arolygon defnyddwyr, a nodir ganddo y bydd yn gwneud hynny yn ail flwyddyn y fframwaith. Mae arolygon gadael i ddefnyddwyr a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn eisoes yn nodi lefelau bodlonrwydd uchel o 95% i 99%. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog sydd ar agor am 10 awr neu fwy yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda i iechyd a lles; Caerdydd yw un o'r unig dri awdurdod i gynnig yr ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau ar draws eu holl fannau gwasanaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi cynyddu'n sylweddol ers 2016-17, a phriodolir hyn i dargedu'r rhaglen i fynd i'r afael ag anghenion demograffig penodol, gyda nifer y mynychwyr fesul pen y boblogaeth nawr yr ail uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn y nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol, er bod y perfformiad yn parhau i fod yn uwch na lefel y canolrif.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerdydd yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr sydd â

gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Yn sgil datblygu rhaglen ddigwyddiadau yn 2017-18, mae'r niferoedd sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau wedi codi dros 40%, gyda pherfformiad yn hyn o beth nawr yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae lefelau ymwelwyr hefyd wedi parhau i gynyddu; efallai fod model yr Hyb yn ffactor yma, ond mae'r ffigyrau hefyd yn amlygu'r cynnydd yn y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a digwyddiadau/gweithgareddau llyfrgell. Mae nifer aelodau'r llyfrgell wedi codi, ond mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi gostwng ychydig, er ei fod yn dal i fod yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae benthyciadau llyfrau ar y cyfan hefyd wedi gostwng yn ystod y cyfnod, er bod benthyciadau plant yn parhau'n gryf, gyda'r gwasanaeth yn cofnodi'r ail nifer uchaf o fenthyciadau plant fesul pen y boblogaeth.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Nid yw'r gwasanaeth yn dal yn bodloni'r gofynion yn ymwneud â deunydd darllen cyfoes, er gwaethaf gwelliant yn nifer yr eitemau a dderbyniwyd. Nodir bod y targedau yn hyn o beth yn heriol i'r gwasanaeth, o ystyried poblogaeth sy'n tyfu yng Nghaerdydd. Er bod gostyngiad bach wedi bod yn y gronfa lyfrau gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn adnoddau plant, ac mewn deunyddiau iaith Gymraeg, gyda'r targedau hyn wedi'u cyflawni. Mae'r perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau yn ddigon tebyg i 2016-17, gyda'r targed o 7 diwrnod yn cael ei gyrraedd, a'r targed 15 diwrnod wedi'i fethu o fymryn bach. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu wrth baratoi at ddarparu cefnogaeth i Credyd Cynhwysol, a Chaerdydd yw un o'r ychydig awdurdodau i adrodd am gynnydd yn y defnydd o TGCh.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi codi'n sylweddol yn 2017-18 yn dilyn integreiddio timau'r Hyb a'r Llyfrgell, a'r holl staff bellach wedi'u hyfforddi i gyflawni dyletswyddau llyfrgell fel rhan o'u gwaith safonol; o ganlyniad, mae targed cyfanswm y staff fesul pen y boblogaeth bellach wedi'i gyrraedd, a pherfformiad y gwasanaeth yw'r uchaf yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng ymhellach, ac maent yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi staff i gwblhau cymwysterau perthnasol, gyda'r nod o wella nifer y staff sydd â chymwysterau proffesiynol. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn hyfforddiant / datblygiad staff. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi gostwng ychydig, gyda 196 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tua 31 awr yr un i'r gwasanaeth (sef cynnydd yng nghyfanswm yr oriau). Penodwyd mentor gwirfoddol i wella ansawdd a chwmpas y cyfleoedd gwirfoddoli a gynigir.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu yn 2017-18, yn enwedig mewn perthynas â gwariant ar staff, gan adlewyrchu integreiddio timau'r Hyb a'r Llyfrgell sydd bellach yn rhannu cyllidebau a ffrydiau incwm. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi cynyddu ychydig, ac mae'r targed yn hyn o beth yn dal i gael ei gyrraedd, gyda'r mymryn lleiafrif o ymyriadau ar y gwasanaeth.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau adrodd sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Caerdydd naratif lawn yn amlinellu cyfraniad y gwasanaeth o dan bedair thema allweddol strategaeth Symud Cymru Ymlaen, ac wrth gyflawni yn erbyn y saith nod

Llesiant. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau, iechyd a lles, mentrau dysgu a chynhwysiant digidol, ochr yn ochr â datblygu rhaglenni diwylliannol, treftadaeth a'r Gymraeg.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, adroddodd Caerdydd am weithredu ei strategaeth Hyb, sef creu gwasanaethau wedi'u cydleoli mewn deuddeg lleoliad ledled rhan ddeheuol y ddinas. Dywedwyd mai cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth trwy ddatblygu Hybiau Lles Cymunedol yn y gogledd a'r gorllewin fydd ffocws gweithgarwch yn 2018-19. Bydd hyn yn cynnwys ystyried demograffeg y gymuned, ac ymgynghori â phreswylwyr a phartneriaid. Nodir hefyd greu tîm datblygu a strategaeth llyfrgell newydd i gefnogi datblygiad arlwy'r llyfrgell. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys gwella cyfleoedd hyfforddi, gan gynnig cyfle i ragor o staff ddilyn cymwysterau NVQ llyfrgell arbenigol.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Caerdydd wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, ac mae integreiddio timau'r Hyb a'r Llyfrgell wedi cynorthwyo i wella sawl maes. Mae datblygiadau wrth ddarparu hyfforddiant a chynnal rhaglen ddigwyddiadau wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi agendâu iechyd a lles. Mae staffio yn parhau i fod yn destun pryder, gyda nifer y staff cymwysedig ymhlith yr isaf yng Nghymru, er bod y gwasanaeth yn cefnogi staff i gwblhau cymwysterau perthnasol. Bydd creu tîm datblygu a strategaeth llyfrgell newydd yn cefnogi'r gwasanaeth wrth lunio arlwy'r llyfrgell i ddiwallu anghenion ei gymunedau.